



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru

SFWIN 07/2019

Lwfansau i Fyfrwyr Anabl – trefniadau newydd i ddarparwyr gwasanaethau technoleg gynorthwyol, darparwyr asesiadau o anghenion, a darparwyr cymorth anfeddygol ar ôl i'r Grŵp Sicrwydd Ansawdd - Lwfansau i Fyfrwyr Anabl gau

Rhagarweiniad

Mae'r Grŵp Sicrwydd Ansawdd – Lwfansau i Fyfirwyr Anabl (GSA-LFA) wedi cyhoeddi y bydd yn cau ar 20 Rhagfyr 2019. Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfirwyr Cymru hwn yn amlinellu'r trefniadau newydd (ac mewn rhai achosion y trefniadau interim) a fydd ar waith ar ôl i'r GSA-LFA gau.

Gwybodaeth i fyfirwyr

Roedd y GSA-LFA yn arfer darparu offeryn chwilio am ganolfannau asesu anghenion ar wefan y GSA-LFA, ond ni fydd ar gael ar ôl i'r GSA-LFA gau. Yn lle hynny, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn cyfeirio myfirwyr at restr o'r canolfannau asesu anghenion sydd ar gael yn y llythyr DSA1 y bydd myfirwyr yn ei dderbyn i'w hysbysu eu bod yn gymwys i gael Lwfansau i Fyfirwyr Anabl.

Gwybodaeth i aseswyr

Er nad yw'n ofynnol i gymorth anfeddygol myfirwyr Cymru gael ei ddarparu gan gyflenwr hysbys, roedd offeryn chwilio am gymorth anfeddygol y GSA-LFA ar gael i aseswyr anghenion wrth gwrs. Ni fydd yr offeryn chwilio am ddarparwyr cymorth anfeddygol a oedd yn arfer bod ar gael ar wefan y GSA-LFA ar gael ar ôl i'r GSA-LFA gau. Os bydd angen, gall aseswyr anghenion gyfeirio at y rhestr gyfredol o gyflenwyr cymorth anfeddygol a gyllidir gan Lwfansau i Fyfirwyr Anabl, a gyhoeddwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr ar dudalen ymarferwyr Student Finance Wales: <https://www.studentfinancewales.co.uk/media/198750/nmh-providers-data.xlsx>

Gall aseswyr anghenion barhau i gael dyfynbrisiau am gymorth anfeddygol yn uniongyrchol gan gyflenwyr. Gellir gwneud hyn ynghyd â chadarnhau bod gan y cyflenwr gapasiti i ddarparu'r cymorth a argymhellwyd. Dylai aseswyr anghenion barhau i roi dau ddyfynbris am gymorth anfeddygol ynghyd â'u hargymhelliad, fel y gwnânt ar hyn o bryd.

Gwybodaeth i Gyflenwyr Cymorth Anfeddygol

Dylai darparwyr cymorth anfeddygol sydd am ddiweddarau'r wybodaeth a gyhoeddir ar y rhestr sydd ar gael drwy fynd i'r cyfeiriad uchod (e.e. manylion cyswllt), neu sydd am gael eu tynnu oddi ar y rhestr, gysylltu â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr drwy e-bostio: dsa_requests@slc.co.uk.

Sicrhau ansawdd ac archwilio

Darparwyr Gwasanaethau Technoleg Gynorthwyol

Mae tendr am gyflenwi technoleg gynorthwyol a hyfforddiant wedi'i gyhoeddi gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr ac mae ar gael yma: <https://www.delta-sourcing.com/tenders/UK-UK-Glasgow:-Computer-equipment-and-supplies/UX4N64G393>.

O ran darparwyr cyfredol gwasanaethau technoleg gynorthwyol (DGTG), bydd y trefniadau a amlinellir isod ar waith yn ystod y cyfnod rhwng yr adeg pan fydd y GSA-LFA yn cau a'r adeg pan fydd y trefniadau contract newydd yn dod i rym.

Yn ystod y cyfnod interim hwnnw, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob DGTG barhau i gydymffurfio â'r prif egwyddorion a safonau sy'n sail i'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer DGTG a weithredwyd yn flaenorol gan GSA-LFA. Ceir crynodeb o'r rhain yn Atodiad 1. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu perfformiad DGTG ar y cyd â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr a gall gynnal hapwiriadau ar DGTG. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i weithredu fel y bo'n briodol mewn ymateb i unrhyw bryderon. Cyhoeddir mwy o wybodaeth am hyn maes o law.

Darparwyr asesiadau o anghenion

O ran darparwyr asesiadau o anghenion, bydd y trefniadau a amlinellir isod yn berthnasol yn ystod y cyfnod interim rhwng cau'r GSA-LFA a chychwyn unrhyw drefniant newydd a gytunir ac a weithredir o ganlyniad i'r ymgynghoriad presennol ar Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl a fydd yn dod i ben ar 17 Chwefror 2020.

Yn ystod y cyfnod interim hwn, disgwylir i holl ddarparwyr asesiadau o anghenion barhau i gydymffurfio â'r prif egwyddorion a safonau sy'n sail i'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer Canolfannau Asesu a weithredwyd yn flaenorol gan y GSA-LFA. Ceir crynodeb o'r rhain yn Atodiad 2. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu perfformiad darparwyr ar y cyd â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr a gall gynnal hapwiriadau ar ddarparwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i weithredu fel y bo'n briodol mewn ymateb i unrhyw bryderon.

Darparwyr cymorth anfeddygol

Disgwylir i'r holl ddarparwyr cymorth anfeddygol barhau i gydymffurfio â chanllawiau Cyllid Myfyrrwyr Cymru. Rhaid i bob darparwr cymorth anfeddygol feddu ar y lefel ofynnol o wybodaeth, sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau i allu darparu'r cymorth yn gymwys a bodloni'r safonau proffesiynol.

Cwynion

Dylai myfyrrwyr a gyllidir gan Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl godi unrhyw gwynion gyda chyflenwr eu gwasanaeth yn y lle cyntaf. Os nad yw'r myfyriwr a'r cyflenwr yn gallu datrys materion, dylai'r myfyriwr gael ei gyfeirio at y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr. Gellir cael manylion am weithdrefn gwynion y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr ar y wefan:

<https://www.gov.uk/government/organisations/student-loans-company/about/complaints-procedure.cy>.

Chwythu'r chwiban

Os ydych am fynegi pryderon bod cyflenwr neu fyfyriwr yn cyflawni twyll mewn perthynas â derbyn cymorth a gyllidir gan Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl, cysylltwch â'r

Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr drwy'r wefan:

<https://www.gov.uk/government/publications/how-to-report-suspected-fraud-to-the-student-loans-company>.

Os oes gennych bryderon eraill, neu os nad yw'n briodol cysylltu â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, cysylltwch â Llywodraeth Cymru drwy e-bostio:

isadrancyllidmyfirwyr@llyw.cymru

Gwrthdaro buddiannau

Bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwblhau ffurflen Gwrthdaro Buddiannau newydd a chyflwyno'r ffurflenni dilynol yn flynyddol, neu hyd nes y caiff proses newydd ei sefydlu. Arferai'r ffurflenni gael eu cyflwyno i'r GSA-LFA. Unwaith byddwch wedi cael y ffurflen newydd, dylech ei llenwi a'i chyflwyno'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn isadrancyllidmyfirwyr@llyw.cymru.

Unwaith y bydd y ffurflen newydd wedi'i dosbarthu, caiff darparwyr gwasanaethau technoleg gynorthwyol, darparwyr asesiadau o anghenion a darparwyr cymorth anfeddygol eu hysbysu ynghylch yr angen i gwblhau eu ffurflenni o fewn mis. Rhagwelir y bydd hyn yn digwydd ddechrau 2020. Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw newidiadau perthnasol sy'n digwydd rhwng darparu'r ffurflenni i Lywodraeth Cymru yn isadrancyllidmyfirwyr@llyw.cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffurflenni ynghyd â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, a'r Adran Addysg lle bo'n briodol, ac mae'n bosibl y bydd yn trefnu hapwiriadau ar ddarparwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i weithredu fel y bo'n briodol mewn ymateb i unrhyw bryderon.

Bydd sancsiynau yn parhau i gael eu defnyddio mewn perthynas â'r darparwyr hynny nad ydynt yn cyflwyno ffurflen Gwrthdaro Buddiannau. Byddant yn cael eu tynnu oddi ar ein rhestr o ddarparwyr hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru wedi derbyn ffurflen foddhaol.

Ymholiadau

Dylech gyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y trefniadau sicrhau ansawdd ac archwilio, neu ynghylch gwrthdaro buddiannau, at Lywodraeth Cymru drwy e-bostio: isadrancyllidmyfirwyr@llyw.cymru

Dylech anfon unrhyw ymholiadau cyffredinol ynghylch cynnyrch a gwasanaeth y Lwfansau i Fyfirwyr Anabl i'r blwch post perthnasol ar gyfer y gwasanaeth rydych yn ei ddarparu:

Cyflenwyr Cymorth Anfeddygol	-	sfwdsa_team@slc.co.uk
Canolfan Asesu Anghenion	-	access_centre@slc.co.uk
Cynghorwyr Anabledd	-	disability_adviser@slc.co.uk
DGTG	-	sfwdsa_team@slc.co.uk

Atodiad 1 – Y prif egwyddorion a safonau i Ddarparwyr Gwasanaethau

Technoleg Gynorthwyol (DGTG)

Cyffredinol

1. Dylai'r DGTG, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddarparu "un datrysiad" ar gyfer y myfyriwr, lle bydd y DGTG yn cael gafael ar yr holl eitemau o offer a gymeradwywyd dan y Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl, yn eu gosod ynghyd ac yn eu dosbarthu i'r myfyriwr.

Hygyrchedd

2. Dylai gwefan y DGTG gydymffurfio, o leiaf, â Chanllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We W3C (WCAG 2.0)¹.
3. Dylai'r DGTG ddarparu dogfennaeth i fyfyrwyr mewn fformatau hygyrch yn ôl yr angen.

Ymholiadau gan Cyllid Myfyrrwyr Cymru

4. Dylai'r DGTG ymateb i ymholiadau gan Cyllid Myfyrrwyr Cymru cyn pen 3 diwrnod gwaith, er mwyn osgoi oedi diangen mewn perthynas â chais gan fyfyrwr am Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl.

Dyfnbrisiau

5. Dylai'r DGTG ddarparu dyfnbrisiau sy'n seiliedig ar fatrics y fanyleb offer (sydd i'w gael ar y wefan: <https://www.studentfinancewales.co.uk/media/198753/slc-dsa-computer-specification-matrix-november-2019.pdf> cyn pen 1 diwrnod gwaith ar ôl derbyn cais clir a chyflawn am ddyfnbris gan asesydd.

Cyflenwi offer a hyfforddiant

6. Dylai'r DGTG ddarparu'r opsiwn dosbarthu a argymhellwyd yn adroddiad asesu anghenion y myfyriwr.
7. Dylai'r DGTG dddosbarthu'r archeb cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r myfyriwr dderbyn yr archeb.
8. Os bydd y DGTG yn ddarparu'r offer a'r hyfforddiant, dylai'r hyfforddiant ar feddalwedd gynorthwyol ddechrau cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl ei dosbarthu, oni bai bod y myfyriwr yn gofyn am ddyddiad diweddarach. Os bydd y DGTG yn cyflenwi hyfforddiant ar dechnoleg gynorthwyol yn unig, dylai'r hyfforddiant ddechrau cyn pen 10 diwrnod ar ôl yr amser pan mae'r myfyriwr yn cysylltu â'r DGTG neu'r amser pan mae'r myfyriwr yn derbyn ei offer, pa un bynnag sydd hwyraf, oni bai bod y myfyriwr yn gofyn am ddyddiad diweddarach.
9. Dylai'r holl hyfforddiant ar dechnoleg gynorthwyol a ddarperir i fyfyrwyr gael ei roi i fyfyrwyr ar eu hoffer eu hunain ar ôl iddo gael ei dddosbarthu a'i osod.

¹ <http://www.w3.org/WAI/standards-guidelines/wcag/>

10. Gall myfyrwyr uwchraddio'r offer a gyflenwir, ar eu traul eu hunain, o fewn yr opsiynau a gynigiwyd iddynt gan y DGTG. Cyfrifoldeb y DGTG yw sicrhau na fydd y cynnyrch arall a awgrymwyd yn peryglu'r bwriad gwreiddiol ac y rhoddir lefel gyfartal neu uwch o warantiad, yswiriant a gwasanaeth ar ôl gwerthu i unrhyw offer sy'n cael ei uwchraddio.
11. Mae'n rhaid i'r DGTG sicrhau bod yr holl gymwysiadau meddalwedd wedi'u cofrestru yn enw'r myfyriwr unigol ac nad ydynt wedi'u gosod yn gyffredinol; mae'n rhaid cadw cofnod archwiliadwy o ba godau trwyddedau sydd wedi'u neilltuo i ba fyfyrwr.

Atgyweirio a chynnal a chadw

12. Dylai'r DGTG ddarparu gwasanaeth atgyweirio a chymorth technegol parhaus mewn perthynas ag offer a meddalwedd a ddarparwyd gan y DGTG i'r myfyriwr, a dylai gael ei ddarparu gan staff sydd â chymwysterau priodol. Dylai hyn gynnwys cynnal a chadw a chymorth cynhwysfawr o ran y cyfrifiadur a pherifferolion drwy gydol y cyfnod (4 blynedd ar y mwyaf).
13. Dylai'r DGTG ddarparu gwasanaeth "desg gymorth" sydd ar waith rhwng 9.00 a 17.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf (heb gynnwys gwyliau banc). Os bydd myfyriwr yn cysylltu â'r ddesg gymorth drwy e-bost, mae'n rhaid i'r DGTG ymateb cyn pen 2 awr ar ôl derbyn yr e-bost.
14. Os na ellir datrys y broblem cyn pen 24 awr drwy gymorth o bell, bydd y DGTG yn ymweld â'r safle i atgyweirio'r offer cyn pen 2 ddiwrnod. Os na ellir atgyweirio'r offer ar y safle, mae'n rhaid i'r DGTG ei gasglu cyn pen 2 ddiwrnod. Os na ellir cywiro'r broblem cyn pen 3 diwrnod gwaith ar ôl casglu'r offer, mae'n rhaid darparu offer benthyg priodol.
15. Mae'n rhaid i'r DGTG drwsio'r achos cyntaf o feirws heb godi ffi. Os bydd achosion pellach o feirysau, gall y DGTG fynnu bod y myfyriwr yn talu ffi os na chafwyd y feirws drwy waith cwrs.

Diogelwch

16. Mae'n rhaid i'r DGTG ddarparu pecyn diogelwch â thrwydded am ddim am gyfnod y cwrs, a fydd yn cynnwys meddalwedd gwrthfeirysau, ysbïwedd a maleiswedd.

Yswiriant

17. Dylai'r DGTG drefnu yswiriant am gyfnod cwrs y myfyriwr drwy frocer yswiriant sydd wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Dylai'r polisi gwmpasu'r holl galedwedd a gyflenwyd a chynnwys y canlynol: polisi heb dâl dros ben; difrod damweiniol, tân, dwyn a difrod maleisus gan drydydd parti; ac adfer yr holl galedwedd a meddalwedd yn llawn i'r safon a gyflenwyd yn wreiddiol o leiaf. Ni ddylai fod wedi'i gyfyngu i un hawliad.

18. Mae'n rhaid i'r DGTG ddarparu offer benthyg os bydd y cwmni yswiriant yn cytuno bod hawliad dilys ac os bydd yn cymryd mwy na 10 diwrnod i amnewid neu atgyweirio'r offer o adeg ei awdurdodi i adeg ei roi.

Archwilio

19. Dylai'r DGTG gadw tystiolaeth briodol fod yr egwyddorion a'r safonau uchod wedi'u bodloni, rhag ofn y bydd ei hangen at ddibenion archwilio.

Atodiad 2 – Y prif egwyddorion a safonau i ddarparwyr asesiadau o anghenion

Hygyrchedd

1. Dylai fod gan y ganolfan asesu wefan hygyrch sy'n cydymffurfio, o leiaf, â Chanllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We W3C (WCAG 2.0)².
2. Dylai asesiadau gael eu cynnal mewn amgylchedd cyfrinachol a phriodol. Dylai offer sy'n berthnasol i gefnogi anghenion y myfyriwr fod ar gael yn ystod y cyfweliad.
3. Dylai'r adeilad fod yn hygyrch i fyfyrwyr, gan gynnwys y rheiny sydd ag amhariadau corfforol a synhwyraidd, a dylai fod ganddo o leiaf un toiled hygyrch sy'n cydymffurfio â Safon Brydeinig 8300.

Asesiadau

4. Dylai'r cyfweliad yn y ganolfan asesu gael ei gynnal cyn pen 15 diwrnod gwaith ar y mwyaf ar ôl cyswllt cyntaf y myfyriwr, oni bai bod y myfyriwr yn gofyn am apwyntiad diweddarach.
5. Mae'n rhaid cwblhau'r adroddiad asesu anghenion gan ddefnyddio'r templed sydd ar gael ar y wefan: <https://www.studentfinancewales.co.uk/media/198751/nar-template-april-2019.doc>
6. Os argymhellir technoleg gynorthwyol, dylai'r adroddiad asesu anghenion gynnwys 3 dyfynbris am offer. Dylid cael dyfynbrisiau gan sefydliadau sydd ar y rhestr o gyflenwyr presennol technoleg gynorthwyol a hyfforddiant a gyllidir gan Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl, sydd i'w gweld isod:
 - Assistive Solutions
 - Barry Bennett Ltd
 - Concept Northern
 - Hamer Technology Limited
 - Iansyst Ltd
 - Invate Ltd
 - Microlink PC Ltd
 - Remtek Systems Ltd
 - Sight and Sound Technology
 - Wyvern Business Systems
7. Os oes angen offer ergonomig, dylai'r adroddiad asesu anghenion gynnwys 1 dyfynbris am offer ergonomig. Gellir ei gael gan unrhyw gyflenwr.
8. Os oes angen cymorth anfeddygol, dylai'r adroddiad asesu anghenion gynnwys 2 ddyfynbris am gymorth anfeddygol.

² <http://www.w3.org/WAI/standards-guidelines/wcag/>

9. Dylai'r adroddiad terfynol gael ei anfon i Cyllid Myfyrwyr Cymru cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr asesiad, neu cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr asesiad yn achos myfyrwyr sy'n gofyn am gopi drafft o'r adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr.

Aseswyr

10. Mae'n rhaid i'r holl staff sy'n gweithio ar sail un i un gyda myfyrwyr fod wedi cael datgeliad sylfaenol fan lleiaf a gynhelir o leiaf bob tair blynedd.
11. Dylai aseswyr feddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i asesu myfyrwyr yn briodol, gan gynnwys meysydd arbenigol megis dyslecsia, nam ar y golwg a nam ar y clyw. Mae'n rhaid i ganolfan asesu fod yn gallu darparu asesydd sydd â phrofiad addas i gwmpasu unrhyw anabledau y gall y myfyriwr eu cyflwyno.